Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Rhagfyr 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Rhagfyr 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Carwyn Jones AS**
Llafur Cymru



**Dai Lloyd AS**
Plaid Cymru



**David Melding AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Suzy Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 5**

Cyflwyno'r Bil ..... 5

Cefndir ..... 6

Cylch gwaith y Pwyllgor ..... 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 9**

Hawliau dynol ..... 9

Ein barn ni ..... 22

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 24**

Yr angen am ddeddfwriaeth ..... 24

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth ..... 25

Y dull o ddrafftio a materion sy'n ymwneud â chydgrynhoi cyfraith Cymru ..... 26

Asesiadau Effaith ..... 31

Ein barn ni ..... 33

**4. Sylwadau penodol ar bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 35**

Adrannau 6, 7 ac 8 – Codau sy'n ymwneud â'r Hyn sy'n Bwysig, Cynnydd ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ..... 35

Ein barn ni ..... 42

Adran 17 - Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm ..... 43

Ein barn ni ..... 45

Adran 25 – Pŵer i osod gofynion pellach ar gyfer cwricwlwm ..... 46

Ein barn ni ..... 50

Adrannau 33 a 34 – Pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl ..... 50

Ein barn ni ..... 53

Adran 40 – Gwaith datblygu ac arbrofion ..... 54

Ein barn ni ..... 57

Adran 47 - Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol ..... 58

Ein barn ni ..... 60

Adran 50 – Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau pellach ..... 61

Ein barn ni ..... 61

Adran 67 - Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad ..... 62

Ein barn ni ..... 65

Darpariaethau cyffredinol ..... 65

Ein barn ni ..... 67

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) gan Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg (y Gweinidog), ar 6 Gorffennaf 2020.[1]

## Cyflwyno'r Bil

**1.** Roedd Memorandwm Esboniadol[2] yn cyd-fynd â'r Bil, a chafodd hwn ei ddiwygio a'i ail-osod yn ddiweddarach ar 1 Medi 2020.[3] Cyfeirio at y fersiwn ddiwygiedig y mae'r cyfeiriadau at y Memorandwm Esboniadol yn yr adroddiad hwn.

**2.** Ar 30 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi i gyd-fynd â'r Bil.[4]

**3.** Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 9 Gorffennaf 2020, a phennu 4 Rhagfyr 2020 fel terfyn amser i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.[5]

---

[1] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

[2] Bil Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Memorandwm Esboniadol, yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2020

[3] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol, yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2020

[4] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau

[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer trafod y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Gorffennaf 2020

## Cefndir

**4.** Diben y Bil yw "darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd diwygiedig i helpu i roi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith yn rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru".[6]

**5.** Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

> "Bydd y fframwaith newydd ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar ddull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer dysgwyr ledled y wlad."[7]

**6.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y Bil yn cynnig hwyluso'r canlynol:

1. Cynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm i blant 3-16 oed mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion feithrin a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a darparu cwricwlwm mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn lleoliadau eraill a sicrhawyd gan awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.
2. Darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir.
3. Y gofynion cyffredinol y mae rhaid i gwricwlwm eu bodloni, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol), meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau mandadol (Cymraeg, Saesneg, crefydd, gwerthoedd a moeseg, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb)).
4. Cyhoeddi cod Yr Hyn sy'n Bwysig gan Weinidogion Cymru yn nodi'r cysyniadau allweddol ym mhob maes dysgu a phrofiad ac yn disgrifio ehangder y dysgu y mae rhaid ei gwmpasu.

---

[6] Memorandwm Esboniadol paragraff 1.1

[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), 6 Gorffennaf 2020, Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg

5. Cyhoeddi cod statudol gan Weinidogion Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer cynnydd yn y cwricwlwm newydd.

6. Cyhoeddi cod gan Weinidogion Cymru yn nodi'r dysgu craidd ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb.

7. Rhoi trefniadau asesu ar waith i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.

8. Sefydlu continwwm dysgu 3-16 a thrwy gael gwared ar y termau cyfnodau allweddol 2, 3 a 4, a'r cyfnod sylfaen mewn deddfwriaeth.

9. Datgymhwyso Saesneg hyd at 7 oed i helpu i gefnogi a chynnal rhuglder yn y Gymraeg.

10. Eithriadau i ddisgyblion penodol (mewn amgylchiadau penodedig).

11. Pwerau i Weinidogion Cymru i roi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch eu swyddogaethau.[8]

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**7.** Cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â deddfwriaeth, cyfiawnder a'r cyfansoddiad o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd y ddeddfwriaeth.

**8.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;

[8] Memorandwm Esboniadol paragraff 1.1

- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

**9.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog yn gofyn cyfres o gwestiynau penodol mewn perthynas â'r Bil ar 4 Awst 2020.[9] Atebodd y Gweinidog ar 18 Medi 2020.[10] Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog hefyd yn ein cyfarfod ar 5 Hydref 2020.[11]

[9] Llythyr at y Gweinidog Addysg, 4 Awst 2020

[10] Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 18 Medi 2020

[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[12]

**10.** Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[13]

### Hawliau dynol

**11.** I fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae adran 108A(2)(e) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) yn ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**12.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon bod y Bil, yn ei gyfanrwydd, "yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan *Ddeddf Hawliau Dynol 1998* ("Hawliau'r Confensiwn")".[14]

**13.** Mae'r asesiad effaith integredig, Cwricwlwm Cymru - sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn, yn ystyried sut y mae darpariaethau'r Bil ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

**14.** Yn ei llythyr ar 18 Medi 2020, cyflwynodd y Gweinidog ei dadansoddiad manwl o sut y mae darpariaethau'r Bil ynghylch Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cydymffurfio ag Erthygl 2 Protocol 1 (hawl i addysg), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) ac Erthygl 14 (diogelu rhag gwahaniaethu) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

---

[12] Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1. Gweler hefyd y Memorandwm, paragraff 2.1 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [6] a [7]

[13] Datganiad gan y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 6 Gorffennaf 2020

[14] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

**15.** Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o bedair elfen fandadol yn y cwricwlwm newydd i blant 3 i 16 oed sydd wedi'u pennu yn adran 3 o'r Bil, a bydd yn disodli 'addysg grefyddol' yn y cwricwlwm presennol.

**16.** O ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dywed y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn faes astudio lle y mae dysgwyr yn defnyddio amryw o ddulliau disgyblaethol i ymdrin yn feirniadol ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Y bwriad yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i archwilio perthynas hanesyddol a chyfoes Cymru ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol."[15]

**17.** Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd yn un o bedair elfen fandadol yn y cwricwlwm newydd i blant 3 i 16 oed sydd wedi'u pennu yn adran 3 o'r Bil, a bydd yn disodli 'addysg rhyw' yn y cwricwlwm presennol.

**18.** O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dywed y Memorandwm Esboniadol:

> "Bwriedir i addysg cydberthynas a rhywioldeb gael ei dysgu ar draws y cwricwlwm. Bydd yr addysgu a dysgu yn archwilio'r ffyrdd cydgysylltiedig y mae ystod eang ac amrywiol o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol a biolegol yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol. Mae'n elfen bwysig o greu dull gweithredu ysgol gyfan o ran cynorthwyo iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol a lles."[16]

**19.** Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i rieni allu tynnu eu plant allan o elfennau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y cwricwlwm. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi'n fodlon bod hyn yn gydnaws â hawl rhieni i arddel eu hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol o dan Erthygl 2 Protocol 1 (hawl i addysg) a'u hawl i ryddid meddwl,

---

[15] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.46

[16] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.52

cydwybod a chrefydd o dan Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "… nid yw'r Bil yn rhoi'r hawl i dynnu plant allan o'r gwersi hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Credaf fod materion sy'n ymwneud ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn treiddio drwy bob rhan o'r gymdeithas a'u bod yn aml yn codi materion cymhleth y gall fod yn anodd i bob un ohonom, yn enwedig plant, fynd i'r afael â hwy. Credaf fod gan ysgolion ran i'w chwarae wrth helpu dysgwyr i ddeall y materion hynny a mynd i'r afael â hwy. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddarparu gwell dealltwriaeth o'r ddau faes hyn o safbwynt gwahanol grefyddau, credoau anghrefyddol a syniadau athronyddol o fewn cyd-destun cymdeithas fodern, amlddiwylliannol ac amlffydd."[17]

**20.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod y darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg "yn faes arbennig o gymhleth yn y Bil"[18] a rhoddodd grynodeb inni o'r hyn y mae'n ofynnol i bob categori o ysgol ei wneud o dan y Bil newydd mewn perthynas â'r addysg honno:

*"Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei gynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig;
- Mae'n rhaid hefyd ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

[17] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[18] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

*Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig.
- Os nad yw'r ddarpariaeth honno'n gydnaws â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol, mae'n rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol");
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd gael ei chynllunio gan ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil;
- Yn y math hwn o ysgol, y sefyllfa arferol yw bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cael ei darparu i'r disgyblion;
- Ond, os bydd rhiant disgybl yn gwneud cais amdani, mae'n rhaid i ysgol ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol i'r disgybl yn hytrach na'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd yn unol â'r maes llafur cytunedig. Nid yw hyn yn hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn hytrach, mae'n hawl i wneud cais am fath gwahanol o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â gweithred

ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad yw'r weithred ymddiriedolaeth yn gwneud darpariaeth ynghylch addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sy'n gydnaws â'i daliadau ffydd. ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol")

- Os nad yw'r ddarpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn gydnaws â'r maes llafur cytunedig, mae'n rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â'r maes llafur cytunedig.
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd gael ei chynllunio gan ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil;
- Yn y math hwn o ysgol, y sefyllfa arferol yw bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn cael ei darparu i ddisgyblion.
- Ond, os bydd rhiant plentyn yn gofyn amdani, mae'n rhaid i ysgol ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r disgybl sy'n gydnaws â'r maes llafur cytunedig, yn hytrach nag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Unwaith eto, nid yw hyn yn hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn hytrach, mae'n hawl i wneud cais am fath gwahanol o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg."[19]

**21.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Mae'n bwysig nodi, ar wahân i'r Bil, os bydd gwladwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n rhaid iddi sicrhau bod mynediad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol, yn ôl y gyfraith. Fel arall, dylid bod hawl i dynnu plentyn o'r gwersi hynny (…)
>
> Mae'r Bil yn caniatáu i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol barhau i gael ei darparu gan ysgolion ffydd ond, yn achos ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir, gall rhiant plentyn optio allan

[19] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

o hynny o blaid addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol. Wrth blwraliaethol, rwy'n golygu ei bod yn addysgu nifer o wahanol safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y wladwriaeth wedi croesawu sawl ffydd wahanol i'r ddarpariaeth addysg yn hanesyddol. Wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio parchu hyn. Mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae wrth ddarparu addysg yng Nghymru.

O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, er bod yr hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hyn wedi cael ei dileu, nid yw hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ddisgyblion yn yr ysgolion hynny, o reidrwydd, gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Yn hytrach, gall eu rhieni ofyn eu bod yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd yn unol â'r maes llafur cytunedig. Os gwneir cais o'r fath, bydd yn rhaid i ysgol ddarparu'r math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Felly, er bod yr hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hyn wedi'i dileu, bydd angen i'r hyn a ddarperir fod yn blwraliaethol os bydd y rhiant yn gwneud cais am hynny. Mae'r dull gweithredu hwn yn gosod gofyniad newydd ar ysgol o'r math hwn (i ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig os gwneir cais gan riant) ac mae hyn yn gymesur yn ein barn ni.

Mae'n bwysig nodi nad wyf yn tybio na fydd unrhyw addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn blwraliaethol. Wrth siarad â'm swyddogion, mae Gwasanaethau Addysg yr Eglwys Gatholig wedi nodi'n glir iawn eu bod yn ystyried bod yr addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir mewn ysgolion Catholig yn blwraliaethol. Yn syml, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn cael ei darparu yn unol â'r gweithred ymddiriedolaeth, ac er nad yw'n ymarferol i Lywodraeth Cymru ystyried pob gweithred ymddiriedolaeth, mae'r dull

gweithredu a nodir yn y Bil yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn, yn ein barn ni."[20]

**22.** Ymhelaethodd y Gweinidog ar y pwyntiau hyn yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 5 Hydref. Dywedodd:

> "The roots of this lie in the work undertaken by a previous Welsh Government, by Professor Graham Donaldson… In his report, 'Successful Futures', he recommended that religious education be a compulsory part of the Welsh curriculum going forward. And I agree that that is an important part of a child's education, but, obviously, we need to ensure that that part of the curriculum, which is important in delivering the purposes set out for the curriculum, is pluralistic in nature. And whilst, quite correctly… we don't assume, nor do we have evidence, that religious education that is currently being delivered in many of our faith schools is not pluralistic, we have to take steps in the legislation to ensure that it is. (…)
>
> … the Bill makes provision for denominational education to be delivered, but to ensure that it is compliant with human rights legislation, because there is no right to withdraw, it needs to be pluralistic in nature. And, therefore, whilst it is expressly stated in the Bill that denominational RVE is the default, if a parent requested the agreed syllabus, then that also would need to be delivered."[21]

**23.** O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae'n bwysig nodi, ar wahân i'r Bil, os bydd gwladwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n rhaid iddi sicrhau bod mynediad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol, yn ôl y gyfraith. Fel arall, dylid bod hawl i dynnu plentyn o'r gwersi hynny. Caiff y darpariaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu cynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn

---

[20] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [11] a [12]

cael ei darparu'n blwraliaethol. Dyna'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith gyfredol."[22]

**24.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog hefyd pa gamau diogelu a geir yn y Bil (neu'n ehangach) i geisio sicrhau bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn drwy gael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.

**25.** O ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn gwneud darpariaeth mewn sawl ffordd sy'n ceisio sicrhau bod cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn blwraliaethol, a bod y pwnc yn cael ei addysgu mewn ffordd blwraliaethol:

- ailenwi addysg grefyddol yn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- ei gwneud yn ofynnol i gwricwlwm ysgol roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno, ac mae'n rhaid i hwnnw hefyd gydymffurfio â gofynion penodol a bennir yn adran 375A o *Ddeddf Addysg 1996*.[23]

**26.** Ychwanegodd y Gweinidog:

"Caiff y maes llafur cytunedig ei fabwysiadu gan Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Bydd yn ofynnol i'r gynhadledd gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a bydd gan y sawl sy'n mynychu hawliau pleidleisio.

Bydd Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog yn parhau i roi cyngor i awdurdod lleol ynghylch darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan y Bil – bydd yn ofynnol i'r rhain hefyd gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Yn y ffordd hon, caiff plwraliaeth ei ymgorffori yn y maes llafur cytunedig, a'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir mewn ysgolion."[24]

---

[22] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[23] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[24] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

**27.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 5 Hydref, ymhelaethodd y Gweinidog eto ar y camau diogelu sy'n bodoli mewn perthynas â darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dywedodd:

> "The purpose of the change in the name is to reflect the expanded scope of this aspect of the curriculum and to ensure that it is clear, from the legislation itself, that the new subject should include non-religious views. That was done by linking the Bill provision to the term 'philosophical convictions', which is found in article 2, protocol 1, and that was reflected in section 62 of the Bill. In other words, the RVE provided, pursuant to the Bill, has to be compatible with article 2, protocol 1, in that it must include teaching on philosophical convictions, the definition of which is outlined in article 2, protocol 1. Secondly, we're changing the constitution to the agreed syllabus conferences and to the standing advisory councils on religious education. So, the Government has chosen to retain the agreed syllabus conferences, but the Bill amends the constitution so that it requires a local authority to include, in its ask, groups of persons to represent such non-religious philosophical convictions as, in the opinion of the authority, ought to be represented. So, this reflects current guidance that was issued by me to local authorities and agreed syllabus conferences previously to expand their membership."[25]

**28.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd:

> "The Bill also includes powers for Welsh Ministers to publish statutory guidance to local authorities and to the agreed syllabus conference, which they must have regard to in respect of the adoption of an agreed syllabus. There's also a power in section 66 to issue statutory guidance to a range of persons. (…) So, that's the legislative context in which practitioners will be working, and then, of course, we will have the usual checks and balances in terms of ensuring that schools are delivering a curriculum that is in line with the curriculum. So, that's a

---

[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [14]

> job for the governors, that's a job for individual local education authorities, for our regional school improvement services and, actually, ultimately for the inspection regimes, whether that be the religious inspection regime or Estyn."[26]

**29.** O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn sawl ffordd sy'n ceisio sicrhau bod cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn blwraliaethol, a bod y pwnc yn cael ei addysgu mewn ffordd blwraliaethol, gan gynnwys:

- ailenwi "addysg rhyw" yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- cyflwyno cod statudol yn nodi'r themâu a'r materion sy'n berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er mwyn sicrhau bod ystod o syniadau am unrhyw bwnc penodol yn y maes yn cael eu cynnwys ynddo;
- cyhoeddi canllawiau statudol i ategu'r cod a'r darpariaethau yn y Bil (gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 66 o'r Bil);
- y ddarpariaeth benodol a geir yn y Bil[27] sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir fod yn briodol yn ddatblygiadol.

**30.** Dywedodd y Gweinidog:

> "Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod y modd y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei haddysgu a'i dysgu yn briodol i'r plentyn neu'r person ifanc ac yr eir i'r afael â'r materion a godir mewn ffordd feirniadol a gwrthrychol. Mae hon yn nodwedd bwysig er mwyn sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn gwybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl o'u hysgol pan fydd yn mynd ati i gyflwyno ei chwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb."[28]

---

[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [15]

[27] Mae'r ddarpariaeth yn adrannau 24(2), 31(3)(a), 32(6)(a), 38(2), 52(4), 54(3), 55(4) a 57(2) o'r Bil.

[28] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

**31.** O ran cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm, mae'r Bil yn trin ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn wahanol i'r rheini nad oes ganddynt gymeriad crefyddol, a hynny yn y modd y mae'r cwricwlwm yn cwmpasu'r elfen fandadol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog beth yw'r cyfiawnhad dros hyn, ac a yw hi'n fodlon nad yw hyn yn codi unrhyw faterion hawliau dynol.

**32.** Dywedodd y Gweinidog fod cyfraith achosion a Hawliau'r Confensiwn yn golygu bod yn rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr. Os na ddarperir hyn, yna rhaid bod hawl i dynnu plant allan o'r addysg honno. Ychwanegodd y Gweinidog:

> "… bydd yn ofynnol i ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir barhau i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau y bydd pob disgybl yn gallu astudio maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg os mai dyna yw dymuniad y rhiant mewn ysgolion o'r fath. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r system addysg a bydd llawer o rieni a dysgwyr yn awyddus i ddewis y math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r Bil yn parchu hynny ac yn cadw'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd ar ysgolion o'r fath i addysgu yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Ni fwriedir bychanu pwysigrwydd crefydd mewn unrhyw ffordd. Yn hytrach, y nod yw pwysleisio agweddau ehangach.
>
> Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob disgybl mewn ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir, gall rhieni dysgwyr ofyn am faes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y gall rhieni sy'n anfon eu plant i ysgol sefydledig neu ysgol ffydd wirfoddol a reolir ddymuno i'w plentyn gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Yn y modd hwnnw, mae maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn blwraliaethol ei natur ar gael i bob dysgwr. Rydym o'r farn bod hynny'n gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. Canlyniad yr uchod yw y bydd addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn, a fydd yn

> cynnwys ystod o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Dyna'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith ar hyn o bryd. Yn yr ystyr hynny, mae cydraddoldeb."[29]

**33.** Cydnabu'r Gweinidog fod y Wladwriaeth yn niwtral yn hyn o beth yn gyffredinol, ac mai dyna pam fod pwyslais ar blwraliaeth. Ychwanegodd:

> "Nid oes unrhyw hawl i gael addysg a ddarperir gan y Wladwriaeth yn ôl eich credoau crefyddol eich hun. Felly, er bod y Wladwriaeth yn cydnabod bod lle i ysgolion crefyddol, mae'n rhwymedig i ddarparu darpariaeth blwraliaethol. Felly, lle mae plentyn yn mynychu ysgol ffydd ond nad yw'n rhannu ffydd yr ysgol honno, mae hawl i geisio darpariaeth blwraliaethol amgen. Fodd bynnag, lle mae plentyn â ffydd benodol yn mynychu ysgol nad yw'n ysgol ffydd, nid oes hawl i ofyn i'r Wladwriaeth ddarparu addysg yn unol â'r ffydd honno. Felly, i'r graddau y ceir triniaeth wahaniaethol, gellir ei chyfiawnhau ar y sail bod y Wladwriaeth yn sicrhau addysg blwraliaethol ac yn parchu gallu pobl i sefydlu ysgolion ffydd neu addysgu eu plant y tu allan i'r ysgol yn unol â'u ffydd eu hunain ar yr un pryd.
>
> Ar hyn o bryd, mae hawl amodol eisoes i rieni plant mewn ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir optio allan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol a dewis addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn unol â'r maes llafur cytunedig yn lle hynny. Felly, nid yw'r hawl absoliwt newydd i optio allan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn gwbl newydd yn yr ystyr hynny, ond mae'n ddatblygiad o'r hawl amodol bresennol honno sydd gan rieni. Mae'n rhywbeth y byddai'n rhaid i ysgolion fod wedi mynd i'r afael ag ef o bryd i'w gilydd."[30]

**34.** Cydnabu'r Gweinidog y byddai'r hawl ddiamod hon yn ofyniad newydd ac "y bydd hynny'n dasg anodd i rai ysgolion". Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog:

---

[29] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[30] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> "… credwn fod y Bil yn gwneud y dasg yn haws drwy ofyn iddynt fabwysiadu'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan olygu bod y dasg gynllunio honno'n haws.
>
> Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol gynllunio dau faes llafur, os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny. Gan nad oes unrhyw hawl i dynnu plentyn allan o wersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (nac yn wir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb), mae angen i'r Bil sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i'r plant hynny sy'n mynychu ysgol ffydd os bydd rhiant yn dymuno hynny.
>
> Ystyriaf fod hyn yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. O ran sut y gallant ddarparu hynny'n ymarferol, rydym yn rhagweld mai niferoedd bach iawn o ddisgyblion fydd yn peidio â dilyn y maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Byddai angen i'r ysgol ystyried y ffordd orau o ddarparu hynny. Er enghraifft, gellid ei ddarparu mewn dosbarthiadau ychwanegol atodol neu ar wahân. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ystyried sut i asesu effaith gweithredu'r gofyniad hwn a mynd i'r afael â hi. Os nad oedd hynny'n briodol ym marn yr ysgol, yna gallai'r opsiynau gynnwys gwneud trefniadau i ddarparu dysgu ychwanegol mewn lleoliad arall neu wneud trefniadau i ddarparwyr allanol ddarparu dysgu ar safle'r ysgol. Byddai angen i'r ysgol nodi hynny'n glir, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n cael ei ddarparu."[31]

**35.** Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi "gwrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill" ond nad yw'n rhagweld y bydd nifer mawr o ddisgyblion yn optio allan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Ychwanegodd:

> "Yn fy marn ni, mae'n debygol, os yw rhieni wedi arfer yr hawl i dynnu eu plant allan o wersi addysg grefyddol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y byddant hefyd yn eu tynnu allan o wersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Rydym ar ddeall bod nifer y rhieni

[31] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> sy'n arfer yr hawl i dynnu eu plant allan o wersi ar hyn o bryd mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn fach iawn."[32]

## Ein barn ni

**36.** Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog am faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**37.** O ran goblygiadau hawliau dynol y Bil, nodwn fod y Gweinidog yn fodlon bod y Bil, yn ei gyfanrwydd, yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan *Ddeddf Hawliau Dynol 1998*.

**38.** Mae'n amlwg bod y Gweinidog wedi meddwl llawer am faterion hawliau dynol wrth ddatblygu'r Bil. Fodd bynnag, rydym am bwysleisio pwynt pwysig. Yn ein hadroddiad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)[33], dywedasom y dylai sylwebaeth lawn ar asesiad Llywodraeth Cymru o'r ystyriaethau hawliau dynol gael ei darparu yn y memoranda esboniadol a osodir gerbron y Senedd ochr yn ochr â Biliau, yn hytrach nag yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Pwysleisiwn drachefn y byddem wedi ffafrio'r dull hwn, am resymau hygyrchedd, fan lleiaf.

**39.** Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru wedi'i gynllunio ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn feirniadol, yn blwraliaethol ac yn cydymffurfio'n llwyr â hawliau Confensiwn plant a rhieni. Yn hyn o beth, rydym o'r farn bod y Codau a wneir o dan adrannau 6 i 8 o'r Bil (ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 66 o'r Bil) o bwysigrwydd sylfaenol. Trafodir y Codau ymhellach ym Mhennod 4 yr Adroddiad.

**40.** Bydd yr union ddyddiad y daw'r cwricwlwm newydd i rym yn cael ei ragnodi gan Orchymyn a wneir o dan adran 79 o'r Bil. Fodd bynnag, nodwn fod y Memorandwm Esboniadol yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r fframwaith statudol newydd y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer yn 2021,

---

[32] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[33] Adroddiad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), Awst 2019

cyn dechrau blwyddyn academaidd 2022/23. Gan hynny, ein pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd fydd yn ystyried y Codau ac unrhyw reoliadau sy'n deillio o'r Bil. Bydd y Pwyllgor hwnnw yn sicr am ystyried materion hawliau dynol yn llawn wrth graffu ar y darnau pwysig hyn o is-ddeddfwriaeth.

**41.** Ac ystyried y bydd y ddeddfwriaeth hon yn diwygio darpariaeth addysg yn sylfaenol yng Nghymru, rydym o'r farn y gallai'r Bil, pe bai'n dod yn ddeddf, fod yn bwnc blaenllaw i waith craffu ôl-ddeddfwriaethol gan un o bwyllgorau'r Senedd o fewn pum mlynedd i weithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**42.** Mae'r Bil yn creu 'Cwricwlwm i Gymru' – y cwricwlwm pwrpasol cyntaf o'i fath. Fe'i datblygwyd yn dilyn adolygiad yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus, yn 2015, a oedd yn argymell ailfeddwl yn sylfaenol am yr hyn y mae ei angen ar bobl ifanc drwy eu haddysg.

**43.** Mae'r Bil yn datblygu ar y Papur Gwyn, Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Ionawr 2019.

**44.** Mae'r Bil yn diddymu Rhan 7 o *Ddeddf Addysg 2002*, sy'n cyflwyno'r trefniadau presennol ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

**45.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro diben a bwriad y Bil. Dywedodd wrthym:

> "… the purpose of this legislation is to ensure that children in Wales have the opportunity to develop the knowledge, skills and experiences for them to be successful adults, to empower the teaching profession to use their pedagogical skills to develop curricula that are suitable for the children sitting in front of them, and, ultimately, to raise standards within the Welsh education system. (…) It's a fundamental piece of education reform, as I said, to raise standards, to equip children with what we believe they need to be successful adults, and to empower teachers with the professional autonomy to deliver a curriculum themselves."[34]

**46.** Yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [18]

> "Mae'r darpariaethau presennol [yn Neddf Addysg 2002] yn gul ac yn gyfyngol ac nid ydynt yn gwneud digon i gefnogi athrawon i gynllunio a datblygu cwricwlwm sy'n blaenoriaethu cynnydd dysgwyr." [35]

**47.** Aethom ar drywydd y pwynt hwn gyda'r Gweinidog yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gan ofyn iddi egluro pam oedd angen deddfwriaeth sylfaenol newydd i gyflawni'r pwrpas a nodwyd. Dywedodd:

> "… the current curriculum that we have in Wales finds its roots in the reform of 1988, and, indeed, the Education Act 2002. That's before— in 1988, before the fall of the Berlin wall, before we all carried computers around in our pockets. So, basically, the fundamentals of our curriculum are rooted in a time that we've moved on from. Successive reports have highlighted, from employers, from children themselves, that the current curriculum isn't reaching their needs. We've also, potentially— inadvertently I'm sure— but we have robbed our teaching profession of their professional autonomy. We have often reduced teaching, in some cases, to a tick-box exercise, and we're not giving the children and young people what they need to see that step change in outcomes for them and, ultimately, our nation, in terms of our economic development and our well-being in our society."[36]

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

**48.** Mae'r Bil yn cynnwys 15 pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, ynghyd ag un pŵer i wneud gorchmynion, tri phŵer i gyhoeddi codau, dau bŵer i gyhoeddi canllawiau, a dau bŵer i wneud cyfarwyddiadau.

**49.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd yn credu bod cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael i is-ddeddfwriaeth.

[35] Datganiad ysgrifenedig, 6 Gorffennaf 2020

[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [20]

Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oes atebion cywir ac anghywir a bod hyn yn fater o sicrhau cydbwysedd.[37] Ychwanegodd y Gweinidog:

> "I'm of the view that we have achieved the right balance between the level of content on the face of the Bill and what will sit in codes, guidance and subordinate legislation. I think it's really important as well to understand the philosophical principles behind the curriculum. So… one of the reasons why we have the new curriculum is to empower our teachers to be able to develop curricula that are fit for purpose for their own individual settings. Therefore, having too much detail and diktat on the face of the Bill potentially would undermine the very philosophical principles and pedagogical principles behind the approach to the legislation. So, there's a balance to be struck, from a legislative point of view but also from a conceptual point of view, of having enough structure and scaffolding and detail on the face of the Bill, so that practitioners, parents, children and young people and those who are interested aren't left floundering, but at the same time, not having so much detail on the face of the Bill that we dictate to the teaching profession once again everything that is to be taught in precise detail in schools, therefore undermining one of the very principles that underpin the approach to developing a new curriculum in Wales."[38]

**50.** Mae Pennod nesaf yr adroddiad yn trafod yn fanylach y pwerau penodol a geir yn y Bil i wneud rheoliadau.

## Y dull o ddrafftio a materion sy'n ymwneud â chydgrynhoi cyfraith Cymru

**51.** Yn sgil ein gwaith craffu ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) – sef *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* bellach – rydym yn ymwybodol y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, erbyn y Chweched Senedd, i baratoi rhaglen weithredu gyda'r nod o wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Wrth

[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [29]

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [29]

graffu ar y Bil hwn, un o'r materion a ddaeth i'r amlwg oedd y modd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddrafftio deddfwriaeth.

**52.** O ran cydgrynhoi, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd y Llywodraeth yn dal i ystyried cydgrynhoi deddfwriaeth ym maes addysg. Dywedodd y Gweinidog:

> "… the Bill does not codify the law… but I think it does make a valuable contribution to improving accessibility in terms of understanding legislation that pertains to Wales and Welsh education, especially with regard to the curriculum. The vast majority of the provisions of the Bill are new, free-standing provisions to be enacted in English and Welsh. So, it doesn't codify the law, but I think it does make a step in making it easier for Welsh citizens and those that are interested to understand how the law around the curriculum in Welsh schools is underpinned by law."[39]

**53.** Ychwanegodd y Gweinidog yn ddiweddarach:

> "I think it's a really important principle, isn't it, of the rule of law: that people understand how they can get information, first of all to be able to influence the development of legislation and then have access to it to understand how it applies to them, and how they can protect and pursue their rights? These discussions are held within the department when looking at legislation, but at this stage… it's felt appropriate that this Bill is drafted in the way it is.
>
> I would absolutely hope in future years that time and resources can be given to consideration about further consolidation within the education department. At the moment, though, I have to say that resources are stretched pretty thin and we're trying to prioritise what is needed at this time. But that should never preclude, in future, the

[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [23]

need to look at further consolidation of Welsh education as we develop the Welsh statute book."[40]

**54.** Ym mis Tachwedd 2019, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol gopi inni o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer drafftio deddfwriaeth, sef *Drafftio Deddfau i Gymru*. Os bydd Bil neu offeryn statudol yn defnyddio term y bwriedir iddo fod â'r ystyr sydd wedi ei rhoi mewn darn o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r canllawiau ar gyfer drafftwyr cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylent ystyried bob amser a fyddai'n well ailddatgan y diffiniad yn llawn yn hytrach na chymhwyso'r diffiniad presennol. Mae'r canllaw hefyd yn nodi: "os cafodd y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ei gwneud yn uniaith Saesneg, bydd ailddatgan y diffiniad yn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael hefyd."

**55.** Gyda hyn mewn golwg, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y cyfeiriadau niferus yn y Bil at *Ddeddf Addysg 1996*, sy'n rhagddyddio datganoli. Gofynnwyd iddi a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ailadrodd rhannau perthnasol y Ddeddf honno yn y Bil hwn fel eu bod yn dod yn rhan o ddeddfwriaeth Cymru, yn hytrach na gofyn i ddisgyblion, rhieni ac athrawon gyfeirio at ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân er mwyn gwybod, er enghraifft, beth yw ystyr "rhiant".

**56.** Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod *Deddf Addysg 1996* yn dal yn Ddeddf allweddol, a dywedodd:

"For the moment, we consider that, with this Bill, those key terms are best left where they are, because people know where to find them. Taking them out and putting them in this Bill can, sometimes, create more confusion than just leaving them where they are."[41]

**57.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar 5 Hydref 2020 ysgrifennodd y Pwyllgor[42] at y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cabinet Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am

[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [96] a [97]

[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [93]

[42] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 9 Hydref 2020

hygyrchedd cyfraith Cymru ac am oruchwylio Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol. Gan ddefnyddio'r Bil fel astudiaeth achos, gofynnwyd am farn y Cwnsler Cyffredinol am nifer o faterion, gan gynnwys:

- pam, fel dull drafftio cyffredinol, na fanteisiwyd ar y cyfle i ailddatgan holl ddiffiniadau perthnasol *Deddf Addysg 1996* yn y Bil, yn enwedig fel modd o ddarparu ar gyfer diffiniadau dwyieithog o dermau allweddol;
- dulliau gwahanol o ailddatgan diffiniadau yn neddfwriaeth Cymru, er enghraifft drwy ddefnyddio nodiadau esboniadol.

**58.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i hyrwyddo hygyrchedd mewn deddfwriaeth, ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Dywedodd hefyd:

> "This lies behind the position set out in our drafting guidance that, when a definition or expression is used in a Bill, consideration should always be given to whether it should be set out in full in the Bill concerned (as opposed to including in that Bill a pointer to a pre-existing definition set out elsewhere in legislation)."[43]

**59.** Ychwanegodd:

> "In the context of bilingual legislation, this decision (whether to restate a pre-existing definition) is a particularly significant one. This is because the result of not restating a definition or expression given in an existing Act of Parliament is that the definition or expression is available only in English, not in both Welsh and English."[44]

**60.** Yng nghyd-destun y Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> "… as you have noted, the Bill does not restate definitions used in the Education Act 1996. Instead the Bill provides (in section 77) that expressions in it that are defined in, or given a meaning by, the

[43] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

[44] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

> *Education Act 1996* have the same meaning as in that Act. The Bill also includes provision (in section 68) to the effect that it is one of the Education Acts.
>
> The "Education Acts" in this context are certain Acts that are listed in the Education Act 1996. These Acts are defined together with the Education Act 1996 itself as being the "Education Acts". Definitions and expressions used in the Education Act 1996 feed through into the other "Education Acts" unless there is express provision otherwise.
>
> This approach permits a high degree of uniformity and cohesion within the education law system as a whole. It means that definitions and expressions used in any one of the "Education Acts" are likely to build on expressions in the parent Act, i.e. the Education Act 1996, that are also used in other "Education Acts"."[45]

**61.** Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol restr inni o'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Bil a ddiffinnir yn *Neddf Addysg 1996*, neu y rhoddir ystyr iddynt yn y Ddeddf honno. Wrth ddrafftio'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Llywodraeth wedi ystyried a ddylid ailddatgan yr ymadroddion hyn yn y Bil. Dywedodd y canlynol:

> "The issue was considered from a drafting and legal policy perspective, taking into account our commitment to accessibility and bi-lingual drafting: the advantage of restatement would be to achieve bilingual definitions of terms used in the Bill. Though it is worth noting that where expressions are integral to the new curriculum framework, for instance "the four purposes", "mandatory elements", "cross-curricular skills", they are in any event defined in the Bill. Despite this advantage it was decided on both drafting and legal policy grounds to avoid restatement. The object of this decision was to avoid undermining accessibility and the coherence of the body of education law set out in the Education Acts."[46]

[45] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

[46] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

**62.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod ystod o ffactorau wedi'u hystyried, ac y penderfynwyd y byddai ailddatgan, ar yr achlysur hwn, yn tanseilio hygyrchedd a chysondeb. Mae ei lythyr atom ar 28 Hydref yn rhoi manylion pellach am y pwyntiau hyn.[47]

**63.** Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol nad oedd y sefyllfa hon yn ddelfrydol o bell ffordd, ond ei bod yn adlewyrchu natur bresennol cyfraith addysg ac yn benodol natur gydgysylltiedig y gwahanol statudau a'r ymadroddion a ddefnyddir ynddynt, gan ystyried y cysyniad cyffredinol o "Ddeddfau Addysg" a'r defnydd eang a wneir o'r cysyniad hwnnw. Cadarnhaodd hefyd:

> "I am therefore content that definitions used in the Education Acts (including in the Education Act 1996) should not have been restated in the Bill, as adopting such an approach in the context I have set out would have adverse effects in terms of accessibility, consistency and coherence across the body of education law."[48]

**64.** O ran diffiniadau, cytunai'r Cwnsler Cyffredinol â ni y gallai fod gwerth mewn defnyddio dulliau amgen i'w hailddatgan mewn deddfwriaeth. Dywedodd wrthym:

> "For that reason and the for the reasons I have outlined above, I have asked for the Explanatory Notes for this Bill to be updated, at the first suitable opportunity, to include a copy of the list I have attached to this letter. It may not be an appropriate approach for other Bills, but on this occasion I consider it a sensible alternative."[49]

## Asesiadau Effaith

**65.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, ac mae'r manylion i'w gweld yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol.

**66.** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd (paragraff 9.20 o'r Memorandwm Esboniadol) yn nodi y bydd y cwricwlwm newydd yn cael effaith

---

[47] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

[48] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

[49] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2020

gadarnhaol o ran nifer o nodweddion gwarchodedig gan gynnwys anabledd, hil, cyfeiriadedd rhywiol ac aelwydydd incwm isel. Mae paragraff 9.41 o'r Memorandwm hefyd yn nodi na ragwelwyd bod angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Brawfesur Polisïau Gwledig ar hyn o bryd.

**67.** Mae paragraff 9.49 o'r Memorandwm, mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a gynhaliwyd, yn dweud y bydd dysgwyr yn cael amrywiaeth o brofiadau dysgu a fydd yn eu cefnogi i ddatblygu a chynnal ymddygiad cadarnhaol sy'n llesol i iechyd. Fodd bynnag, mae paragraff 9.50 yn ychwanegu y gallai hyblygrwydd y cwricwlwm newydd arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth ar draws gwahanol gymunedau, ac y gallai hyn beri risg i rai dysgwyr oherwydd eu cefndir neu eu daearyddiaeth.

**68.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro sut y mae'r pryderon a fynegir ym mharagraff 9.50 o'r Memorandwm yn cyd-fynd â'r datganiadau ym mharagraffau 9.20 a 9.41. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Fel y nodir yn adran Prawfesur Gwledig yr Asesiad Effaith Integredig llawn, "mae trefniadau'r cwricwlwm wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ysgol neu leoliad yng Nghymru. Roedd yr ymarferwyr a gyfrannodd at ddatblygu'r trefniadau newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion o wahanol faint mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr."
>
> Mae'r canllawiau wedi'u datblygu i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael budd o'r trefniadau newydd, ni waeth beth fo'u cefndiroedd. Caiff ysgolion mewn ardaloedd gwledig eu helpu i ddatblygu cwricwla sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u materion lleol; a'r cyfleoedd, y gwasanaethau a'r profiadau sydd ar gael yn rhwydd iddynt yn yr un ffordd ag ysgolion a dysgwyr mewn ardaloedd trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi.
>
> Rydym yn cydnabod bod risg y gallai hyblygrwydd o dan y trefniadau newydd arwain at ormod o amrywiaeth o ran darpariaeth. Codwyd y pryderon hyn mewn ymateb i'r cam adborth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm y llynedd, ac maent wedi arwain at y mesurau a gynigir

gennym yn y Bil. Mae'r ddeddfwriaeth a gynigir gennym yn rhoi pwyslais ar elfennau o'r canllawiau er mwyn darparu fframwaith cyffredin sy'n cynnwys gofynion mewn perthynas â'r pedwar diben, meysydd dysgu a phrofiad, y datganiadau beth sy'n bwysig a chynnydd wrth ddysgu. Yn ein barn ni, bydd yr hyblygrwydd sy'n cael ei gynnig i ysgolion o fewn y fframwaith cenedlaethol cyffredin cadarn hwn, gyda chymorth ehangach ar gyfer ymarferwyr ledled Cymru, yn arwain at broses ddysgu sy'n fwy perthnasol i'r cymunedau a'r ardaloedd lle mae plant yn byw. Byddant hefyd yn cael addysg eang a chytbwys i'w cefnogi ni waeth beth y byddant yn ei wneud yn y dyfodol."[50]

**69.** Mae paragraff 9.44 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod effeithiau posibl y bwriad i greu cwricwlwm newydd ar y system gyfiawnder wedi cael eu hystyried.

**70.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a gynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar gyfiawnder cyn cyflwyno'r Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym i'r asesiad hwn gael ei gynnal a'i gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gytunodd wedi hynny (ym mis Ionawr 2019) na fyddai angen proses lawn ar gyfer Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.[51]

## Ein barn ni

**71.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi cyhoeddi papur gwyn yn 2019, cyn cyflwyno'r Bil.

**72.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog ynghylch pam fod angen y Bil, ac rydym yn cydnabod bod y Bil yn deillio o waith yr Athro Donaldson yn 2015.

**73.** O ran y cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth, nodwn fod y Bil yn cynnwys 15 pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, ynghyd ag un pŵer i wneud

---

[50] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[51] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

gorchmynion, tri phŵer i gyhoeddi codau, dau bŵer i gyhoeddi canllawiau, a dau bŵer i wneud cyfarwyddiadau.

**74.** Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog ynghylch cydbwysedd y pwerau ac yn gyffredinol fodlon, er gwaethaf y sylwadau penodol a wnawn yn y Bennod nesaf.

**75.** Nodwn farn y Gweinidog y gallai cael gormod o fanylion a dictad ar wyneb y Bil danseilio'r egwyddorion tra athronyddol a'r egwyddorion addysgeg sy'n sail i'r modd yr aethpwyd ati i greu'r ddeddfwriaeth. Fel sylw cyffredinol, nid ydym yn cytuno â'r farn hon. Fel y mae'r Gweinidog ei hun wedi dweud, mae hygyrchedd deddfwriaeth a gallu rhanddeiliaid i ddeall sut y mae'r ddeddfwriaeth honno'n effeithio arnynt yn agwedd bwysig ar reol y gyfraith. Rydym o'r farn bod cynnwys manylion digonol ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol yn hwb i hygyrchedd.

**76.** Ym Mhennod nesaf yr adroddiad rydym yn tynnu sylw at ddarpariaethau penodol yn y Bil, ac yn cyfeirio at feysydd penodol sy'n achosi pryder o ran lefel y manylion ar wyneb y Bil.

**77.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y dull o ddrafftio'r Bil. Rydym hefyd yn croesawu'r esboniadau trylwyr a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol pan ofynnwyd iddo am fanylion pellach ynghylch drafftio Biliau Cymru a hygyrchedd cyfraith Cymru yn ehangach.

**78.** Rydym yn cytuno bod cydgrynhoi cyfraith Cymru, yn enwedig am resymau hygyrchedd, yn dasg bwysig a gwerthfawr. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati yn y Chweched Senedd i fynd i'r afael â'r toreth o gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a'r cymhlethdod cynhenid sy'n bodoli.

**79.** Yn olaf, nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch yr asesiadau effaith a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil i'r Senedd.

# 4. Sylwadau penodol ar bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys 80 adran a dwy Atodlen, ac mae wedi'i rannu'n saith Rhan. Mae'n cynnwys 15 pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, ynghyd ag un pŵer i wneud gorchmynion, tri phŵer i gyhoeddi codau, dau bŵer i gyhoeddi canllawiau, a dau bŵer i wneud cyfarwyddiadau.

**80.** Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i gyrff llywodraethu wneud cyfarwyddiadau a phenderfyniadau, ac i benaethiaid a darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wneud penderfyniadau. Mae crynodeb o'r rhain yn Nhabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol.

## Adrannau 6, 7 ac 8 – Codau sy'n ymwneud â'r Hyn sy'n Bwysig, Cynnydd ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**81.** Mae adrannau 6 i 8 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Codau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Yr Hyn sy'n Bwysig – yn nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad;
- Cynnydd – yn nodi'r ffordd y mae'n rhaid adlewyrchu cynnydd yn nhrefniadau'r cwricwlwm;
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – yn nodi'r dysgu craidd sydd i'w wneud mewn ysgolion a lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir.[52]

**82.** Yn unol ag adrannau 6 (2), 7 (2) ac 8 (2), rhaid i gwricwlwm gynnwys y cysyniadau a geir yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a chyd-fynd â'r Cod Cynnydd a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

[52] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.62 i 3.68

**83.** Fel yr amlygwyd ym Mhennod 2 yr adroddiad, mae effaith y Bil ar hawliau dynol wedi bod yn rhan allweddol o'n gwaith craffu.

**84.** Awgrymodd y Pwyllgor i'r Gweinidog y byddai'r Codau sydd i'w gwneud o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil yn bwysig ar gyfer diogelu Hawliau'r Confensiwn, ac ar gyfer cyflawni amcanion y Bil.

**85.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod pob un o'r Codau ychydig yn wahanol, ac felly y gallai dull gwahaniaethol, yn dibynnu ar natur y cod, fod yn briodol.[53] Roedd y Gweinidog hefyd o'r farn y bydd rhai o'r codau yn fwy dadleuol nag eraill, gan awgrymu ei bod yn debygol y bydd y Cod Cynnydd (sydd i'w wneud o dan adran 7) o ddiddordeb yn bennaf i'r proffesiwn addysgu.[54]

**86.** O ran y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sydd i'w wneud o dan adran 8 o'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

> "Given sensitivities around RSE, I can imagine that code will have a great level of interest. Indeed, that's one of the reasons why we have decided to proceed with the code for relationships and sexuality education, because of the sensitive nature of the content of that part of the curriculum. It's really important, from a practitioner point of view, that they have that additional level of support around what should be taught in that area of the curriculum. It's really important, from a parent's perspective, so they can see very clearly what the intention is in that part of the curriculum."[55]

**87.** Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

> "… it's also really important from a child and young person's perspective, so they can see very clearly what their entitlement is, and so that they know what a school should be doing to equip them in this particular regard of their life. And that's particularly important to me… Report after report has evidenced that young people feel that the current provision of this part of the curriculum is not meeting their

[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [43]
[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [41]
[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [41]

> needs. We're obsessed— absolutely obsessed— with talking about biology and the mechanics of sexual relationships. Children need to know about how to keep themselves safe. They need to know what a good relationship looks like, how they can take action and seek help if they find themselves in a toxic relationship or in a violent relationship. It helps them make good choices."[56]

**88.** Ychwanegodd y Gweinidog yn ddiweddarach ei bod yn bwysig iawn cael y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn:

> "… provide guidance to practitioners, to provide reassurance for parents about what is being taught, and, crucially, sometimes what is not being taught, and why it's being taught, and also to ensure that children are aware of what their entitlement under this part of the curriculum is."[57]

**89.** Bydd y Codau sydd i'w gwneud o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil yn ddarostyngedig i weithdrefn uwch-negyddol yn y Senedd. Cyn cyhoeddi neu adolygu pob un o'r Codau, mae adran 72 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru:

- ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol, a
- gosod drafft o'r Cod arfaethedig gerbron y Senedd (neu yn achos diwygiadau, y Cod diwygiedig arfaethedig).

**90.** Ac ystyried y bydd llawer o fanylion y cwricwlwm yn cael eu cynnwys yn y Codau hyn, roedd ein llythyr at y Gweinidog ar 4 Awst 2020 yn gofyn iddi egluro pam y mae'r Codau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol.

---

[56] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [42]

[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [43]

**91.** Dywedodd y Gweinidog fod y prif egwyddorion wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil ac y byddai'r Codau'n cynnwys "rhai manylion a fydd yn helpu penaethiaid, cyrff llywodraethu ac athrawon i gynllunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith"[58].

**92.** Gan ddefnyddio'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn enghraifft, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "... bydd y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodi'r themâu a'r materion y dylid eu cynnwys wrth addysgu a dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
>
> Bydd angen i bwnc y Cod gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd y Cod ac unrhyw newidiadau iddo yn destun ymgynghoriad. Ystyriaf fod y weithdrefn negyddol yn rhoi cyfle priodol i'r Senedd graffu ar y Cod."[59]

**93.** Ychydig o dystiolaeth yn unig a gawsom gan y Gweinidog am y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd. O ran defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth greu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog:

> "Er hynny, ystyriais a oedd agweddau ar y Cod a oedd yn dynodi mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol e.e. a yw'n caniatáu i ni osod neu gynyddu trethiant; darpariaeth sy'n ymwneud â gwariant sylweddol gan y Llywodraeth; pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol; neu bwerau i roi pwerau mynediad, arholi neu arolygu anarferol, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi. Nid yw'r un o'r materion hyn yn gymwys yn yr achos hwn. Serch hynny, nid dyna'r darlun llawn ac rwyf wedi ystyried ymhellach a yw'r Cod yn codi materion o bwysigrwydd arbennig a fyddai, fel arall, yn dynodi mai'r weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol.
>
> Er y bydd y Cod yn cynnwys themâu a materion i'w cynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhagwelir y byddai hynny ar lefel uchel. Ni chynlluniwyd y darpariaethau Addysg Cydberthynas a

[58] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[59] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> Rhywioldeb yn y Bil er mwyn rhagnodi ei chynnwys. Serch hynny, ymdrinnir ag agwedd allweddol ar y polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar wyneb y Bil, sef y gofyniad bod yn rhaid i'r addysg honno gael ei darparu mewn modd datblygiadol briodol (gweler adrannau 24(2) a 52(4) o'r Bil). Bydd y weithdrefn negyddol yn caniatáu i mi ymateb yn gyflym a diwygio'r Cod yn gyflymach mewn ymateb i faterion newydd yn y maes hwn. Mae'r maes hwn yn un sensitif iawn a bydd materion cymhleth newydd yn dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd.
>
> Darperir cymorth pellach i ysgolion drwy ganllawiau statudol a fydd yn rhoi gwybodaeth fanylach am yr argymhellion ar gyfer addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac, yn benodol, y themâu a'r materion a nodir yn y Cod. Bydd y weithdrefn negyddol yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu'n briodol ar y Cod. Ni fydd y Cod yn egluro sut y dylid mynd ati i addysgu'r materion hynny."[60]

**94.** Aethom ar drywydd y mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog gan gyfeirio at y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a wneir o dan *Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*. Defnyddir y weithdrefn gadarnhaol wrth graffu ar y Cod ADY yn y Senedd.

**95.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut y mae'r Codau sydd i'w gwneud o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil mor wahanol i'r Cod ADY nes ei bod yn fwy priodol i'r Codau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Dywedodd y Gweinidog:

> "… from my perspective, although the word 'code' is common to both the ALN legislation and what we're talking about here, the nature of those codes and what they contain is substantially different. So, the codes that we're talking about in the development of the curriculum— so, for instance, the RSE code— are essentially a technical teaching document to support the profession. It's co-constructed with the profession, so it's very different, I would argue, from the code that we have talked about in the ALN legislation, which encompasses the rights of the child in their entirety. So, the codes we're talking about

[60] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

here are important, but they are limited sections of a child's education, whereas the ALN code covers the entirety of that child's entitlement. So, they're different by nature."[61]

**96.** Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

"I think the thing that I would be concerned about with the code is undermining that spirit of co-construction. So, you work with the profession to develop that code— it's part of our capacity building, actually, within the profession— and then that is undercut or professionals second guess whether that will be supported."[62]

**97.** Cytunodd swyddog y Gweinidog â sylw'r Gweinidog ynghylch cyd-greu'r Cod, ac ychwanegodd:

"Another factor is that we can foresee some need, perhaps on the RSE code, for example, to have to make some changes to respond to new and emerging issues that crop up from time to time, and to put something in the code to give a strong direction to schools how they should deal with some complex issues. We think the negative procedure lends itself better to that, just because we can progress that more quickly. It would still be subject to full consultation, of course; it would be still be laid and there would still be an opportunity for a vote if that was what was wanted."[63]

**98.** Pwysleisiodd swyddog arall y gwahaniaeth rhwng y Codau a'r Cod ADY:

"The progression code, for example, sets out the relationship between schools in delivering progression and what that needs to look like. So, it's exactly one of those areas that has been co-constructed with the profession for the profession, and the codes are quite similar in that

[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [31]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [31]
[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [32]

> regard. So, the point about them being quite different from the ALN code I think is really important."[64]

**99.** Wrth drafod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog fod y "maes hwn yn un sensitif iawn a bydd materion cymhleth newydd yn dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd"[65]. Oherwydd hyn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi wedi ystyried o gwbl y posibilrwydd y gallai'r Codau cyntaf a wneir o dan adrannau 6 i 8 o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gyda fersiynau diwygiedig dilynol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Atebodd y Gweinidog:

> "I can give further consideration to that point. However, my original answer still stands in the sense that the nature of these documents, I believe, means that they are best suited to a negative procedure, due to their content, due to their job, really, within supporting professionals. But obviously, as would any Minister, we'll always give further consideration to any points that are made by the committee."[66]

**100.** Mae adran 72(6) o'r Bil yn golygu bod modd cynnal ymgynghoriadau ynghylch y Codau (fel sy'n ofynnol o dan adran 72(2)(a) o'r Bil) cyn y daw adran 72 i rym. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi'n bwriadu defnyddio'r ddarpariaeth hon, ac atebodd:

> "Efallai y bydd angen defnyddio'r ddarpariaeth hon gan fod llawer o'r cynnwys ar gyfer y cod Beth sy'n Bwysig a'r cod Cynnydd wedi'i gyd-lunio a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 fel rhan o ddogfennaeth canllaw Cwricwlwm i Gymru. Ni ragwelwn y bydd unrhyw newidiadau i'r cod Beth sy'n Bwysig. Ni fyddem am ddiystyru newidiadau i'r cod Cynnydd pe bai'n glir y byddai ymarferwyr yn cael budd o eglurhad pellach. Rydym yn asesu'r angen i wneud newidiadau a byddai angen ymgynghori ar hyn ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu.

[64] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [36]

[65] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [39]

> Mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyd-lunio gan y Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol, a bwriedir ymgynghori arno yn ystod 2021. Yn yr achos hwn, mae'r defnydd o'r ddarpariaeth yn ddarostyngedig i newidiadau i ddarpariaethau'r Bil ac amseru'r ymgynghoriad."[67]

**101.** Ychwanegodd y Gweinidog:

> "Diben cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil yw sicrhau bod modd rhannu'r codau gyda phenaethiaid a chyrff llywodraethu mewn da bryd i'w galluogi i ddatblygu eu cwricwlwm a pharatoi i'w roi ar waith ym mis Medi 2022."[68]

## Ein barn ni

**102.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pwerau yn adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil i wneud y Codau sy'n ymwneud â'r Hyn sy'n Bwysig, Cynnydd ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**103.** Rydym o'r farn y bydd y Codau hyn, a'r eglurder y byddant yn ei roi, yn sylfaenol bwysig wrth ddarparu'r cwricwlwm newydd i ddiwallu anghenion addysgol plant yng Nghymru. Fel y nodwyd ym mharagraff 39, credwn hefyd y bydd y Codau yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

**104.** Yn hynny o beth, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan resymu'r Gweinidog ynghylch pam y dylai'r Codau sydd i'w gwneud o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd.

**105.** Wrth gyfiawnhau'r weithdrefn negyddol, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd y Codau yn cael eu cyd-greu â'r proffesiynau perthnasol, a phryderai y gallai defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol danseilio'r broses hon o gyd-greu.

[67] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[68] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

**106.** Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnwys y proffesiynau perthnasol wrth ddatblygu'r Codau, ni allwn weld cysylltiad amlwg rhwng cyd-greu o'r fath a dadl resymegol dros benderfynu pa weithdrefn graffu y dylid ei defnyddio.

**107.** At hynny, er nad ydym yn deall pam y gallai fod angen diwygio'r Codau ar fyrder (fel yr awgrymwyd yn y dystiolaeth), nid ydym o'r farn y gellid diwygio'r Cod gan ddilyn y weithdrefn negyddol, fel y rhagnodir hynny ar hyn o bryd yn adran 72 o'r Bil, mewn llai o amser na phe dilynid proses arferol y weithdrefn gadarnhaol.

**108.** Bydd y Codau'n cyfrannu'n sylweddol at ddarparu'r cwricwlwm newydd. Er mai mater sy'n ymwneud â pholisi yw hwn, rydym yn cydnabod bod rhai o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r cwricwlwm newydd yn sylweddol a bod y Codau (ynghyd â chanllawiau statudol) yn pennu llawer o fanylion y cwricwlwm. Gan hynny, bydd angen i Weinidogion Cymru barhau i roi ystyriaeth i faterion sensitif penodol ac i safbwyntiau gwahanol pan ddatblygir y Codau (a'r cwricwlwm yn ehangach).

**109.** Rydym felly'n siomedig â lefel y manylder ynghylch y Codau sy'n ymddangos ar wyneb y Bil. Am y rhesymau hyn, er ein bod yn croesawu'r ddyletswydd yn adran 72(2)(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r unigolion y maent yn eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi neu ddiwygio pob Cod, rydym o'r farn y byddai defnyddio'r weithdrefn negyddol wrth wneud y Codau hyn yn ddefnydd amhriodol o'r weithdrefn honno. Credwn y dylai gweithdrefn uwch-gadarnhaol gael ei defnyddio wrth greu'r Codau.

> **Argymhelliad 1.** Dylid diwygio adran 72 o'r Bil fel na ellir gwneud y Codau o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil oni bai bod drafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, drafft o'r Cod diwygiedig arfaethedig) wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd. Dylid cadw'r gofyniad yn adran 72(2)(a) o'r Bil.

## Adran 17 - Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm

**110.** Mae adran 17(a) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y camau y mae'n rhaid i ysgol neu leoliad eu cymryd cyn mabwysiadu

cwricwlwm. Mae adran 17(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r dyddiad sy'n nodi erbyn pa bryd y mae'n rhaid mabwysiadu cwricwlwm. Mae adran 17(c) yn rhoi pŵer i nodi amgylchiadau ychwanegol pan fo'n rhaid diwygio cwricwlwm.

**111.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn. Mae'n datgan bod Llywodraeth Cymru'n credu "fod darpariaeth ddigonol ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r materion hyn"[69]. Ac ystyried y datganiad hwn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau pam fod y pwerau yn adran 17(a) ac (c) yn angenrheidiol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd angen defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 17(a) ac (c). Fodd bynnag, os bydd materion yn dod i'r amlwg neu os bydd amgylchiadau yn newid, maent yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol. Fel y nodwyd yn y Datganiad o Fwriad Polisi, nid oes modd rhagweld sut yn union y bydd arfer yn datblygu. Mae pwerau i wneud rheoliadau o dan yr is-adrannau hyn wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ymarferol rhag ofn y daw'n amlwg bod y gofynion ar wyneb y Bil yn annigonol. Pe bai angen gwneud rheoliadau, byddai'r rheoliadau hynny yn destun ymgynghoriad cyhoeddus."[70]

**112.** Aethom ar drywydd y mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog ar 5 Hydref a gofyn eto pam fod y Gweinidog yn cynnwys pwerau yn y Bil os nad oedd ganddi unrhyw fwriad i'w defnyddio. Pe gwneid penderfyniad i ddefnyddio'r pwerau, gofynnwyd hefyd at ba ddiben fyddai hynny. Dywedodd y Gweinidog:

> "… at present I do not anticipate the need to make use of the regulation-making powers under section 17, other than to specify a date by which the curriculum must be adopted. If necessary, we may make provision that would set out a date by when a curriculum must be adopted or perhaps impose a consultation requirement. The key

---

[69] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

[70] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> duties, such as who must adopt and what must be adopted, are actually on the face of the Bill.
>
> However, should circumstances change or issues come to light, these regulation powers would enable the Government to make provisions as appropriate. So, for example, we could need to use these powers in relation to the revision of the curricula to reflect any significant change to curriculum requirements in the future."[71]

**113.** O ran y weithdrefn graffu sy'n gysylltiedig â'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 17, dywedodd y Gweinidog:

> "I would argue that these provisions are relatively minor in the overall Bill and therefore we felt that the negative procedure was appropriate in this particular instance."[72]

**114.** Ac ystyried nad yw'n eglur pam fod angen y pŵer hwn i wneud rheoliadau, gofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r pŵer fod yn destun darpariaeth fachlud. Dywedodd swyddog y Gweinidog nad oedd yn credu hynny, ac ychwanegodd:

> "It's not so much how it pans out, say, in the first year of the curriculum, for example. These issues could crop up at any point across a range of settings, so we would need to keep them in long term."[73]

## Ein barn ni

**115.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yn adran 17 o'r Bil, ac yn benodol sylwadau'r Gweinidog nad oes ganddi unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn.

**116.** Fel mater o greu cyfreithiau da, rydym yn atgoffa Gweinidogion Cymru nad ydym yn credu ei bod yn briodol i lywodraeth roi pwerau gweithredol iddi'i hun

[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [48] a [49]. Gweler hefyd [50].

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [49]. Gweler hefyd [50].

[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [52]

drwy Fil pan na fydd gan lywodraeth unrhyw fwriad o ddefnyddio'r pwerau hynny.

**117.** Cydnabu'r Gweinidog ei hun y bydd pwerau a roddir ar y llyfr statud ar y llyfr statud, ac y gallai Gweinidog gwahanol eu defnyddio at ddiben gwahanol.[74] Gan hynny, ac yn unol â datganiad y Gweinidog, achubwn ar y cyfle i ailadrodd bod yn rhaid ystyried bob amser yr hyn y mae Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, ac nid dim ond yr hyn y mae Gweinidog cyfredol o Gymru yn dweud y bydd yn ei wneud â'r pŵer hwnnw.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi rhagor o eglurder ynghylch y pwerau yn adran 1 o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio.

**118.** Rydym yn nodi hefyd bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 17 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## Adran 25 – Pŵer i osod gofynion pellach ar gyfer cwricwlwm

**119.** Mae adran 25(1) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ychwanegol ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 10 ac 11.

**120.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi y gellid defnyddio'r pŵer i fynnu bod ysgolion yn darparu cwrs astudio penodol pe na bai'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys.[75]

**121.** Pe bai rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cul i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11, gallai fod yn rhy hwyr i'r dysgwyr hynny erbyn i'r mater gael ei ddwyn i sylw'r Gweinidog ac erbyn i unrhyw reoliadau gael eu gwneud. Am y rheswm hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd i roi gofynion o'r fath ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Ystyriwyd cynnwys manylion ychwanegol ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, teimlaf na fyddai darpariaeth ar wyneb y Bil yn cynnig yr

[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [28]
[75] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

> hyblygrwydd sydd ei angen. Rhagwelwn y bydd angen i ni weld sut y bydd arferion ysgolion yn datblygu, yng nghyd-destun cwricwlwm newydd sbon, a ph'un a fydd unrhyw ddiffygion (os o gwbl). Er enghraifft, mae Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 yn gwneud y math hwn o ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm lleol yng nghyfnod allweddol 4. Mae fersiwn gyntaf y rheoliadau hynny wedi'i diwygio er mwyn rhagnodi gofynion gwahanol o ran cyrsiau astudio ar gyfer y cwricwlwm lleol."[76]

**122.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog beth yr oedd hi'n bwriadu ei wneud gyda'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 25, a pham oedd y pŵer yn wahanol i'r pŵer yn adran 17. Dywedodd y Gweinidog:

> "Well, section 25, as you said, looks to give the power to impose further curriculum requirements, especially for 14 to 16. This is to ensure that there is a broad and balanced curriculum delivered right the way through to the end of statutory education. Suzy, you and I are aware that sometimes one of the unintended consequences of an accountability regime that we've had in the past has led to a narrowing of the curriculum, where the core is focused on, sometimes to the exclusion of other subjects and other experiences. So, we're looking to make sure that there are safeguards to ensure that there is a broad and balanced curriculum delivered right the way through to 16. The powers to make regulations, then— as I say, we could act if we felt, as I said, probably, the curriculum was too narrow, but it would potentially give us powers to effect change if we felt the curriculum was too broad."[77]

**123.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog egluro, yn fwy manwl, y pŵer yn adran 25(3)(b) o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Well, again, it's to make sure that the curriculum is appropriate. My main fear is a narrowing of the curriculum, especially if a child isn't

[76] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[77] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [56]

> necessarily taking a formal qualification. So, the intention of the Bill is that each child would study an element of each of the areas of learning and experience right the way through to the age of 16, even if they weren't going to sit a formal qualification at the end of it, to ensure that that experience was broad.
>
> I guess, in the question of too much, inadvertently perhaps we could have schools expecting children to take a huge range of subjects, which might be detrimental, perhaps, to a child's well-being. We seem to have children these days that sit many, many more GCSEs than perhaps any of us certainly did, and that can put an immense pressure. So, again, it's about having that balance there."[78]

**124.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

> "The only thing that I might add is that, at the moment, we have the local curriculum for the same cohort of pupils. We're not keeping that in exactly the same way in this Bill. But for the ages 14 to 16, we do allow those pupils to delve down into more detail in a range of subjects, and so we're retaining these regulation-making powers that originate from the local curriculum provisions at the moment. And so the kind of things we have in mind would be, for example, specifying a minimum number of courses or perhaps a maximum number of courses you could take. It's one of the things that we've done with the local curriculum regulations. Another example would be specifying you have to include a range of vocational and non-vocational courses to cater for a spread of talents."[79]

**125.** Ac ystyried bod rheoliadau o dan adran 5 o'r Bil (sy'n ymwneud ag agweddau mandadol ar y cwricwlwm) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau pam yr ystyriai fod y

[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [58] a [59]

[79] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [60]

weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 25(1). Dywedodd y Gweinidog:

> "Unwaith eto, mae'r egwyddorion allweddol wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Bydd y Rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys rhai manylion. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd angen i ni weld sut y bydd arferion ysgolion yn datblygu, yng nghyd-destun cwricwlwm newydd sbon.
>
> Ni allai'r pŵer hwn i wneud rheoliadau gael ei ddefnyddio i wneud Rheoliadau a fyddai'n diwygio darpariaethau eraill mewn deddfwriaeth sylfaenol."[80]

**126.** Dywedodd swyddog y Gweinidog hefyd:

> "Section 5, as you say, is subject to the affirmative procedure. It's the Henry VIII power that allows us to amend the face of the Bill— primary legislation— and so we consider affirmative is important for that and appropriate. Here, we wouldn't be amending primary legislation, it would just be including provision by way of regulations. As I say, it's the continuation of the powers that we have to make regulations in this area for the local curriculum. Negative procedure attaches to that. And, again, the key principles are set out on the face of the Bill, in terms of allowing pupils in the 14-to-16 cohort to narrow down a little bit and focus in more detail on particular things. The detail that would be in here is just about minimum and maximum number of courses. It's the sort of thing that would evolve from time to time.[81]

**127.** Dywedodd y Gweinidog i gloi:

> "… these are not major changes. They aren't massively different from what's already included in the education and local curricula for pupils

[80] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [62]

in the key stage 4 regulations of 2009. So, it's not massively revolutionary, it's just to provide those safeguards."[82]

## Ein barn ni

**128.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer yn adran 25 o'r Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a allai osod gofynion pellach ar gyfer cwricwlwm mewn perthynas â disgyblion 14-16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Nodwn ymhellach y gellid defnyddio'r pŵer i fynnu bod ysgolion yn darparu cwrs astudio penodol pe na bai'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys.

**129.** Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog bod angen hyblygrwydd i weld sut y mae arferion ysgolion yn datblygu. Serch hynny, fel y nodwyd gennym wrth holi'r Gweinidog, rydym yn pryderu bod hwn yn bŵer eang a allai orfodi gofynion pellach ar gyfer y cwricwlwm, ac mae'n elfen allweddol yn y Bil hwn.

**130.** Am y rheswm hwn, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog gynnwys mwy o fanylion ar wyneb y Bil sy'n nodi pa bryd a pham y gellir defnyddio'r pŵer. Nid ydym o'r farn bod adran 25(3) o'r Bil yn darparu digon o fanylion.

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio adran 25 o'r Bil i gynnwys rhestr nad yw'n gyflawn (ond sy'n gynhwysfawr) sy'n nodi ym mha amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 25(1).

**131.** At hynny, am yr un rhesymau â'r rhai a geir uchod, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r weithdrefn negyddol i wneud rheoliadau o'r fath.

**Argymhelliad 4.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 25(1) o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Adrannau 33 a 34 – Pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl

**132.** Gall disgyblion sy'n cychwyn ar gyrsiau TGAU ddewis peth o'u haddysgu a'u dysgu, ond o dan adran 33 o'r Bil, gall pennaeth benderfynu nad yw'r

[82] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [63]

ddyletswydd i sicrhau'r addysgu a'r dysgu hwn yn gymwys os bydd 'sail berthnasol' yn gymwys. Mae adrannau 33(3) a (4) o'r Bil yn nodi'r seiliau perthnasol.

**133.** Mae adran 33(6) o'r Bil yn cynnwys pŵer Harri'r VIII sy'n golygu bod modd i reoliadau ddiwygio is-adrannau (3) a (4). Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Nodir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi:

> "Rhagwelir y gallai fod angen i'r rhesymau dros wrthod a nodwyd uchod ddatblygu dros amser. Mae'n bosibl y bydd rhesymau dros wrthod yn y dyfodol yn ymwneud â ph'un a fydd dewis unigol yn cynnig digon o ehangder a chydbwysedd ai peidio. Yn ein barn ni, mae'n briodol bod Rheoliadau yn gallu diwygio'r manylion hyn yn ôl yr angen."[83]

**134.** Yn unol ag adran 34 o'r Bil, rhaid i bennaeth roi gwybodaeth benodol wrth hysbysu'r disgybl a'i rieni am benderfyniad a wnaed o dan adran 33. Mae adran 34(5) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach (mewn cysylltiad â phenderfyniadau o dan adran 33) drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**135.** Yn ôl y Datganiad o Fwriad y Polisi, rhagwelir y gall rheoliadau a wneir o dan adran 34(5) ddelio â materion fel y terfynau amser y mae'n rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â hwy, neu'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud penderfyniad o'r fath.[84] Mae'r Datganiad yn nodi nad yw'n fwriad gwneud rheoliadau ynghylch hyn ar y dechrau, gan fod y "gweithdrefnau a nodir ar wyneb y Bil yn glir ynghylch cyfrifoldebau ysgolion yn hyn o beth".[85]

**136.** Gan nad oes gwybodaeth ar wyneb y Bil am y terfynau amser na'r gweithdrefnau dan sylw, a chan ystyried y gall hyn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau ar eu harholiadau TGAU (sy'n golygu y byddai'n rhaid i unrhyw broses gael ei chwblhau'n gyflym), gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd i gynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, neu i'w gwneud yn ofynnol

[83] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

[84] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

[85] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

cyflwyno rheoliadau, yn hytrach na dim ond caniatáu hynny. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Ystyriwyd cynnwys manylion ychwanegol ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, teimlaf na fyddai darpariaeth ar wyneb y Bil yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen. Mae'r manylion y rhagwelaf y bydd eu hangen, fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi, yn rhai technegol sy'n debygol o ddatblygu dros gyfnod o amser. Mae hynny'n gyson â deddfwriaeth arall ym maes addysg. Er enghraifft, mewn perthynas â gwahardd disgyblion, nodir manylion y gweithdrefnau apelio a'r terfynau amser mewn is-ddeddfwriaeth (gweler Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 (OS 2003/3227)).
>
> Er fy mod i'n gwerthfawrogi'r pwynt a wnaethpwyd yn eich cwestiwn, nid yw'n bosibl rhagweld sut yn union y bydd arfer yn datblygu ac efallai na fydd angen i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud o hyd. Felly, nid wyf yn teimlo bod angen ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud. Os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg, yna rheoliadau fydd y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddant yn caniatáu i'r Llywodraeth ddiwygio manylion unrhyw derfynau amser o bryd i'w gilydd ac mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau."[86]

**137.** Aethom ar drywydd y mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog, a gofyn iddi egluro ei rhesymeg ynghylch pam oedd pŵer i wneud rheoliadau yn fwy priodol na rhoi mwy o fanylion ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

> "… section 33 specifies the grounds on which a headteacher is able to refuse a pupil's decision to pursue teaching and learning chosen by the pupil under section 24. Subsection (2) of this section enables the headteacher to make a determination to refuse that choice. Subsection (4) means it's possible to reverse a decision to allow a pupil to take a course. It may be disproportionate cost or unacceptable— . It's limited: disproportionate cost and unacceptable health and safety

[86] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

risks to other pupils. They're not subject to a legislative procedure because it really is a matter for headteachers in the day-to-day running of their schools, and alongside their staff, they're in the best position to make such determinations. However, section 34(5) would enable the Welsh Ministers to make further provision to regulate these powers if that need arises. Again, we have to have a balance here in terms of the day-to-day runnings of schools. We could find ourselves in a situation where it was simply impossible for a school to make reasonable endeavours to provide that if that was the only child in the school that wanted to study that particular subject. So, we have to qualify that right in some way because of the practicalities of running an education system. (…)

I think we could use greater regulation powers… to maybe put in some details about how that process would work. So, you might want to have some details and regulations about timescales and procedures around that, but the principles of when a headteacher can use those powers are on the face".[87]

**138.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

"… this set of provisions in the main replicates what's there for the local curriculum portion of the curriculum at the moment, and the sorts of information and details that would go in the regulations are of that sort of technical nature, with the key principles already being set out on the face of the Bill— so, for example, who makes a determination, under what grounds they make that determination."[88]

## Ein barn ni

**139.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 33 o'r Bil. Nodwn ymhellach fod y pŵer yn adran 33(6) yn bŵer Harri'r VIII, yn yr ystyr ei fod yn galluogi defnyddio rheoliadau i ddiwygio wyneb y

[87] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [68] a [70]

[88] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [69]

ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn cydnabod y bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac rydym yn fodlon â hynny.

**140.** O ran y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 34(5) o'r Bil, rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer hwn. Rydym yn fodlon mai'r weithdrefn negyddol sydd i'w defnyddio ar gyfer rheoliadau o'r fath. Serch hynny, byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch a all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn mewn ffyrdd eraill ac eithrio i bennu'r terfynau amser ar gyfer y penderfyniadau a wneir gan benaethiaid neu'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi mwy o eglurder ynghylch y pŵer yn adran 34(5) o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio.

## Adran 40 – Gwaith datblygu ac arbrofion

**141.** Mae adran 40 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgol sy'n datgymhwyso neu'n addasu unrhyw un o'r gofynion gweithredu a geir yn adrannau 29 i 32 at ddibenion arbrofol neu ddatblygiadol. Ni fydd cyfarwyddyd o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd.

**142.** Dywed y Datganiad o Fwriad y Polisi:

> "Mae adran 41 yn nodi dau amod y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi cyfarwyddyd o dan adran 40.
>
> Yr amod cyntaf yw y bydd y cwricwlwm a roddir ar waith, o ganlyniad i'r cyfarwyddyd, yn galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu fel y nodir yn y pedwar diben; yn cynnig cynnydd priodol; yn briodol i oedran, gallu neu ddoniau'r disgyblion neu'r plant; yn ystyried eu hanghenion dysgu ychwanegol (os oes rhai); ac yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys.
>
> Yr ail amod, yn achos ysgol, yw bod yr awdurdod lleol wedi gwneud cais am y cyfarwyddyd gyda chytundeb y corff llywodraethu, neu fel arall; neu, os na fydd unrhyw gais wedi'i wneud, fod y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol yn cytuno y dylid rhoi'r cyfarwyddyd.

Yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir, nid oes unrhyw rôl i'w chwarae gan yr awdurdod lleol yn hyn o beth.

Yn achos lleoliadau a ariennir nas cynhelir, yr awdurdod lleol a'r lleoliad sy'n gorfod derbyn cynnig ar gyfer cyfarwyddyd a gyflwynwyd gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru."[89]

**143.** Mae adran 42 o'r Bil yn rhoi manylion atodol am y pŵer i roi cyfarwyddyd yn adran 40.

**144.** Dywed y Datganiad o Fwriad y Polisi hefyd: "Mae natur y pŵer hwn yn golygu mai dim ond o dan amgylchiadau prin… y caiff ei ddefnyddio".[90]

**145.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog roi amgylchiadau enghreifftiol inni. Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog y gallai hyn gynnwys prosiect arloesol sy'n ceisio profi syniad polisi newydd a chodi safonau addysgol. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn rhagweld y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arbrofion ar raddfa lai, mewn un ysgol neu lond llaw o ysgolion yn unig.[91]

**146.** Aethom ar drywydd hyn gyda'r Gweinidog pan roddodd dystiolaeth inni ar 5 Hydref 2020, gan ofyn iddi roi enghreifftiau penodol o ba fath o brosiectau a fyddai'n arwain y Gweinidog i ystyried datgymhwyso neu addasu unrhyw un o ofynion gweithredu'r cwricwlwm. Awgrymodd y Gweinidog y gellid ystyried gweithredu'r cyfnod sylfaenol fel enghraifft o'r gorffennol. Dywedodd:

"So, these are quite substantial powers, to be able to disapply the rest of the Bill, but in sections 41 and 42, we give some more detail about how that power can be used. But, for instance, let me think of a past example— the implementation of the foundation phase. So, you might have a new approach to teaching a particular cohort of the school and you might want to have pioneer schools that are engaging in the discussion, implementation and the trialling of that. So, in the new curriculum, you might use these powers to trial a new 'what matters' statement— so, if you were having a review of the 'what matters'

[89] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

[90] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

[91] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> statements. Or you could, for instance, perhaps be introducing a review of a part of an entire AoLE. You might be delivering a new AoLE. So, it's about giving the flexibility to allow for innovation within the curriculum. So, as I said, previously, you might think about the introduction of a play-based early years agenda, to create the space to do something like that, or as I said, to amend the 'what matters' statements, or perhaps create a new AoLE, or a different type of organisation within the curriculum. So, it's a space to allow innovation."[92]

**147.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn dangos mai nod adran 50 o'r Bil yw adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol a geir yn adran 112 o *Ddeddf Addysg 2002*, a bod y pŵer hwnnw wedi'i ddefnyddio i ddatgymhwyso elfennau o'r cwricwlwm cenedlaethol wrth dreialu'r cyfnod sylfaen mewn rhai ysgolion. Mae'r Datganiad yn nodi y disgwylir y byddai'r pŵer yn adran 50 o'r Bil yn cael ei ddefnyddio at ddibenion tebyg.[93]

**148.** Gan hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau sut y mae'r pŵer yn adran 40 o'r Bil yn wahanol i'r pŵer yn adran 50(1) o'r Bil, a fyddai hefyd yn caniatáu datgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Bwriedir i adran 50 roi pŵer sy'n cyfateb yn fras i'r pŵer yn adran 112 o Ddeddf Addysg 2002. Defnyddiwyd y pŵer yn adran 112 o Ddeddf 2002 pan gafodd y Cyfnod Sylfaen ei dreialu yn 2008 (gweler Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008 (OS 2008/1736)). Enghraifft arall o'r modd y defnyddiwyd pŵer adran 112 yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006 (OS 2006/1335). Yn yr achos hwnnw, roedd y Rheoliadau yn datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth mewn perthynas â disgybl lle mae pennaeth ysgol yn fodlon bod y disgybl yn dilyn cwrs

[92] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [76]

[93] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

sy'n arwain un o gymwysterau allanol cymeradwy y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar lefel mynediad, lefel 1 neu lefel 2. Rhagwelaf y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio ar gyfer materion a gymhwysir yn fwy cyffredinol. O'r herwydd, rheoliadau y mae'n rhaid eu gosod gerbron y Senedd yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â hwy. Rhagwelaf y caiff adran 40 ei defnyddio i fynd i'r afael â materion na chânt eu cymhwyso'n gyffredinol h.y. rhai nad ydynt yn berthnasol i bob ysgol ac sydd, er enghraifft, yn effeithio ar un ysgol neu nifer bach o ysgolion yn unig, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n benodol iawn i'r ysgolion hynny.

Rhagwelaf y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol."[94]

## Ein barn ni

**149.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer yn adran 40 o'r Bil a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgol sy'n datgymhwyso neu'n addasu unrhyw un o'r gofynion gweithredu a geir yn adrannau 29 i 32 at ddibenion arbrofol neu ddatblygiadol, ar yr amod bod amodau penodol a nodir yn adran 41 yn cael eu bodloni.

**150.** Fel y dywedodd y Gweinidog ei hun, er gwaethaf yr amodau hanfodol a restrir yn adran 41, mae'r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd yn bŵer sylweddol i'w roi i Weinidogion Cymru.

**151.** Cyfeiriodd y Gweinidog at weithredu'r cyfnod sylfaen mewn ysgolion yn y gorffennol fel enghraifft o sut y gellid defnyddio'r pwerau yn adran 40 ac adran 50. Am y rheswm hwn, a chan ystyried hyd a lled y pŵer yn adran 40 o'r Bil, credwn fod angen i'r Gweinidog roi mwy o eglurder ynghylch pam fod angen y pŵer hwn y tu hwnt i'r pŵer a geir yn adran 50 o'r Bil.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi eglurder ynghylch pam fod angen y pŵer yn adran 40 o'r Bil yn ychwanegol at y pŵer a

[94] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

geir yn adran 50 o'r Bil. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog esbonio ymhellach sut y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer yn adran 40.

**152.** Nodwn nad oes gweithdrefn ynghlwm wrth y pŵer i roi cyfarwyddyd a geir yn adran 40 o'r Bil. Ac ystyried natur y pŵer hwn, credwn ei bod yn bwysig sicrhau tryloywder wrth ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 7.** Dylai Gweinidogion Cymru roi gwybod i Aelodau'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig ar bob achlysur pan fydd y pŵer i roi cyfarwyddyd a geir yn adran 40 o'r Bil i'w ddefnyddio.

## Adran 47 - Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol

**153.** Mae adran 47(8) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gysylltiedig ag apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol. Mae unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 47(8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**154.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn defnyddio'r pwerau hyn ar y dechrau i wneud darpariaethau pellach ynghylch y broses apelio. Fodd bynnag, mae'r Datganiad hefyd yn nodi bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio'r pwerau ar y dechrau i bennu terfynau amser ar gyfer apelau.[95]

**155.** Ac ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau o'r fath ei chael ar addysg disgyblion unigol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau a roddwyd unrhyw ystyriaeth i bennu terfynau amser ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Section 47(8) of the Bill provides a power for the Welsh Ministers to make regulations making further provision in connection with appeals under this section. We consider that whilst the power does allow us to make provision in respect of the time limits for appeals, we consider that it is more appropriate to allow schools the flexibility to determine their own procedures at this stage. We will continue to monitor the

[95] Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Datganiad o Fwriad y Polisi

situation and should evidence emerge that there is a need for such provision in regulations then we can regulate accordingly.

We also consider that, as with the regulation making powers in section 34(5)..., setting out this sort of detail on the face of the Bill would not offer adequate flexibility that schools might need. If it does become necessary to legislate in this area then I anticipate that regulations will offer the appropriate amount of flexibility needed and can be amended from time to time more easily than is practical with a Bill. The Bill sets out entirely new arrangements for school curriculums and it is important to assess how school and indeed pupil needs develop."[96]

**156.** Aethom ar drywydd y mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog ar 5 Hydref. Ailadroddodd y Gweinidog ei barn na fyddai rhoi manylion ar wyneb y Bil yn rhoi'r hyblygrwydd digonol y gallai fod ei angen ar ysgolion yn hyn o beth.[97] Dywedodd y Gweinidog hefyd:

"I have to say we are considering whether it would be helpful to use these powers at the outset to make regulations specifying time limits for appeal. So, we're doing some more thinking in this area. But it's about flexibility, primarily."[98]

---

[96] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[97] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [78]

[98] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [78]

## Ein barn ni

**157.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch adran 47 o'r Bil sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol.

**158.** Rydym yn cydnabod nad yw'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn syth er mwyn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y broses apelio.

**159.** Rydym yn cydnabod hefyd fod y Gweinidog yn ystyried defnyddio'r pwerau yn adran 47 ar y dechrau i bennu terfynau amser ar gyfer apelau. Fodd bynnag, er mai mater polisi yw hwn, gan ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau am eithriadau dros dro ei chael ar addysg disgyblion unigol, a chan fod y Gweinidog eisoes wedi asesu bod angen rhagnodi terfynau amser o'r fath, nid yw'n eglur inni pam nad yw'r Gweinidog wedi gosod y wybodaeth honno ar wyneb y Bil, neu wedi gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n pennu'r terfynau amser ar gyfer apelau (yn hytrach na rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion).

**160.** Rydym yn cydnabod na fyddai rhoi'r terfynau amser ar gyfer apelau ar wyneb y Bil yn rhoi'r hyblygrwydd ymddangosiadol sy'n angenrheidiol ym marn y Gweinidog. Gan hynny, pe bai'r Gweinidog i ddilyn y dull hwn, credwn y byddai'n rhesymol cyflwyno darpariaeth i gyd-fynd a fyddai'n caniatáu diwygio'r terfynau amser drwy reoliadau. Dylai pŵer Harri'r VIII o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 8.** Dylid diwygio adran 47 o'r Bil:

- fel bod y terfynau amser mewn perthynas ag apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil;
- fel bod modd diwygio darpariaeth o'r fath mewn perthynas â therfynau amser drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**161.** Os na fydd y Gweinidog wedi'i hargyhoeddi gan ein casgliadau uchod, ac os bydd hi gan hynny'n gwrthod argymhelliad 8, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n pennu'r terfynau amser ar gyfer apelau.

**Argymhelliad 9.** Os bydd y Gweinidog yn gwrthod argymhelliad 8, dylid diwygio adran 47(8) o'r Bil fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am y terfynau amser ar gyfer apelau o dan yr adran hon.

**162.** Rydym yn cytuno y dylai'r rheoliadau o dan adran 47(8) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## Adran 50 – Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau pellach

**163.** Mae adran 50(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n datgymhwyso neu'n addasu gofynion gweithredu'r cwricwlwm mewn achosion neu amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

**164.** Mae adran 50(2) yn caniatáu i'r Rheoliadau roi disgresiwn i berson arall ddatgymhwyso neu addasu gofyniad sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa gamau diogelu a fyddai'n cael eu cyflwyno, yn ei thyb hi, i sicrhau bod y disgresiwn hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n iawn. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Rwy'n cydnabod bod datgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddisgybl yn gam difrifol. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynnig o'r fath yn destun ymgynghoriad o flaen llaw a phroses graffu gan y Senedd drwy osod Rheoliadau a wnaed o dan adran 50 o'r Bil.
>
> Pe teimlid y byddai angen rhoi disgresiwn i berson arall yn y rheoliadau, byddai'n bosibl gosod rhai cyfyngiadau ar y broses o arfer yr ataliad hwnnw, er enghraifft, terfynau ar pryd a sut y gellid arfer y disgresiwn neu gyfyngiadau ar ba mor hir y gellid arfer y disgresiwn hwnnw."[99]

### Ein barn ni

**165.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer yn adran 50 o'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau pellach i ofynion gweithredu'r cwricwlwm.

---

[99] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

**166.** Cydnabu'r Gweinidog ei hun fod datgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddisgybl yn gam mawr. Er ein bod yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn destun ymgynghoriad ymlaen llaw, nodwn nad oes unrhyw amodau ynghlwm wrth arfer y pwerau hyn.

**167.** At hynny, nodwn fod adran 50(2) yn caniatáu i berson arall arfer ei ddisgresiwn ynghylch datgymhwyso neu addasu gofyniad sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac mae'n debygol y bydd angen camau diogelu priodol pan fydd person yn arfer disgresiwn o'r fath.

**168.** Am y rhesymau hyn, nid ydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn weithdrefn briodol i'w defnyddio ar gyfer y pŵer yn adran 50.

**Argymhelliad 10.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 50 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Adran 67 - Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad

**169.** Mae adran 67(1) o'r Bil yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu i ddysgwyr sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad. Gellid defnyddio'r pŵer i ddiffinio'r hyn y mae addysg amser llawn yn ei olygu.

**170.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pam fod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer pŵer mor eang. Yn ei llythyr atom ar 18 Medi, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae angen adran 67 i fynd i'r afael â sefyllfa plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad. Dyweder bod plentyn yn cael addysg mewn ysgol ac mewn UCD, ni fyddai'n bosibl cymhwyso gofynion arferol y cwricwlwm at yr UCD a'r ysgol, oherwydd ni all y naill na'r llall roi cwricwlwm llawn ar waith ar gyfer y plentyn. Gellir defnyddio'r pŵer yn adran 67(1) i wneud darpariaeth ynghylch sut y dylai'r cwricwlwm weithio ar gyfer plentyn yn y sefyllfa hon, a phwy ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau gwahanol.

> At hynny, bydd rhai plant yn cael addysg mewn un lleoliad yn unig, ond am gyn lleied o oriau fel ei bod yn amhriodol cymhwyso gofynion arferol y cwricwlwm at y lleoliad hwn. (Er enghraifft, disgybl sydd efallai wedi bod i ffwrdd o'r ysgol oherwydd straen ac sy'n dychwelyd i'r ysgol yn raddol, dyweder am 3 awr yr wythnos i ddechrau.) Gellid defnyddio'r pŵer yn adran 67(1) i wneud darpariaeth ar gyfer y plant hyn. Ond, drwy wneud hynny, mae'n debygol y bydd angen cyfeirio at nifer yr oriau o addysgu a dysgu y mae plentyn yn eu cael mewn lleoliad – er enghraifft, drwy wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid cymhwyso'r cwricwlwm at blant sydd ond yn cael rhwng 3 a 5 awr yr wythnos o addysgu a dysgu mewn lleoliad.
>
> Mae'r ffaith nad oes diffiniad o addysg amser llawn yn rhan o'r cefndir i'r ddarpariaeth hon. Pe bai diffiniad statudol o addysg amser llawn, gallai adran 67 nodi'n syml ei bod yn gymwys i blant nad ydynt yn cael addysg amser llawn. Ond, yn absenoldeb hyn, bydd angen i'r plant hyn gael eu diffinio yn y rheoliadau, a gellir gwneud hyn drwy gyfeirio at nifer yr oriau o addysg a geir. Nid er mwyn diffinio addysg amser llawn, at ddibenion deddfwriaeth addysg yn gyffredinol, y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon ond er mwyn gwneud darpariaeth hyblyg ynghylch sut y dylid cymhwyso'r cwricwlwm, yng nghyd-destun yr oriau gwahanol a'r oriau cyfyngedig o addysg y gall rhai plant fod yn eu cael mewn lleoliad penodol. Ystyriwn mai manylion technegol yw'r rhain yn bennaf."[100]

**171.** Pan ddaeth y Gweinidog i'n cyfarfod ar 5 Hydref, gofynnwyd iddi ymhelaethu ynghylch pa bryd y gellid defnyddio'r pŵer hwn, a gofynnwyd iddi drachefn pam fod y weithdrefn negyddol yn cael ei hystyried yn briodol ar gyfer pŵer mor eang. Dywedodd y Gweinidog:

> "… the section enables the Welsh Ministers to make regulations about teaching and learning for learners who, for example, may be a registered pupil at a maintained school or nursery school, or a pupil referral unit, but also are receiving education at another such setting.

[100] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> This section also permits regulations of this type to be made about other children of compulsory school age who are described in the regulations themselves. This provision is needed to ensure that the regulations make provision about teaching and learning to be provided to children who are receiving part-time education, but not education in more than one setting. So, an example of that might be a child who is perhaps seriously, seriously unwell, or perhaps recovering from serious illness who may be receiving two hours of education a week at home. The curriculum requirements in the Bill would not be appropriate for a child in this position, I would suggest, and so provision will need to be made in the regulations about what criteria the education should meet. So, as you can imagine, there could be large numbers of permutations possible in that context, and the level of detail that would need to be entered into, so I consider it necessary to deal with the position of this small class of children by way of regulations, rather than the face of the Bill itself. So, I think, again, it's about flexibility and recognising that there could be some very specific needs of individual children who find themselves in this way, and having a curriculum that is appropriate for them."[101]

**172.** Mewn perthynas â'r weithdrefn graffu negyddol sydd ynghlwm wrth y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 67, dywedodd y swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "… we do understand the point being made that it's a regulation-making power that applies to a disparate group of pupils, and the reason we couldn't deal with it on the face of the Bill is just there'd be so many permutations it would just be impossible. Going to the particular question about the negative procedure, we would argue that the key principles are there on the face of the Bill, it's just making those work for this fairly narrow group of pupils. So, it wouldn't be setting out any new or substantive policy ideas or principles; that's all there on the face of the Bill. It's really about just making these

[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [81]

> different institutions work together to work for this fairly small cohort of pupils."[102]

## Ein barn ni

**173.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog am y pŵer yn adran 67 o'r Bil, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu i ddysgwyr sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad.

**174.** Er ein bod yn fodlon bod y weithdrefn negyddol i'w defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 67 o'r Bil, credwn fod angen mwy o eglurder ynghylch sut y gellid defnyddio'r pŵer hwn, yn enwedig o ran ei ddefnydd posibl i ddiffinio'r hyn y mae addysg amser llawn yn ei olygu.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i egluro'r pŵer yn adran 67 o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio.

## Darpariaethau cyffredinol

**175.** Mae adran 70(1) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n briodol i alluogi fframwaith y cwricwlwm newydd i weithredu.

**176.** Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a gallant wneud:

- darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol;
- darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

**177.** O ran rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, dywedodd y Gweinidog y byddai hyn ond yn cynnwys darpariaeth yr oedd ei hangen i symud o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol i'r system newydd yn ddidrafferth. Fel enghraifft, cyfeiriodd y

[102] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [84]

Gweinidog at un agwedd ar y cwricwlwm y gallai fod angen ei chadw ar gyfer carfan o ddisgyblion i osgoi unrhyw annhegwch iddynt.[103]

**178.** Dywedodd y Gweinidog hefyd y gallai darpariaeth o'r fath gynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, bydd y Bil yn newid enw "addysg grefyddol" i "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg". Dywedodd y Gweinidog y bydd angen newid y cyfeiriadau hynny ar draws y llyfr statud, ac mai diwygiadau canlyniadol fyddai'r rhain.[104] Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "Mae'n bosibl na fyddwn yn nodi ac yn diwygio pob cyfeiriad o'r fath yn y Bil. Os felly, byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud y newidiadau hynny a sicrhau bod y llyfr statud yn gyson yn hyn o beth.
>
> Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud darpariaeth – drwy bŵer Harri'r VIII neu fel arall – sy'n cynnwys darpariaeth sylweddol newydd. Yn hytrach, bydd yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod pob cyfeiriad at addysg grefyddol yn cael ei newid er mwyn cyfeirio at y pwnc newydd, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, lle y bo'n briodol.
>
> Cwmpas y pŵer yw sicrhau bod bwriadau polisi'r Bil hwn, fel y'u cymeradwywyd gan y Senedd, yn cael eu gweithredu yn y ffordd orau bosibl, sicrhau bod y Bil yn cael ei roi ar waith yn effeithiol a sicrhau bod y llyfr statud ehangach yn cael ei gadw'n gyfredol ac yn hygyrch."[105]

**179.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pam y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 70(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol pan ellir eu defnyddio i addasu deddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "… I think that's a fair cop, and it's my intention to bring forward a Government amendment in relation to section 70, which will have the effect of ensuring that any regulations made under this provision that amend primary legislation would be subject to draft affirmative

[103] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[104] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

[105] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

> procedure. On reflection, the point that the committee makes today, and I know the committee has made previously, is that it's not appropriate to amend primary legislation in a negative way. So, we will bring forward amendments to address that at Stage 2."[106]

**180.** Mae adran 79(2) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n darparu ar gyfer cychwyn darpariaethau penodol yn y Bil.

**181.** Mae argymhellion blaenorol y Pwyllgor ar y mater hwn mewn Biliau eraill wedi awgrymu y dylai'r gorchmynion cychwyn sy'n cynnwys 'darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed' fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**182.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa asesiad a wnaed cyn penderfynu na fyddai gorchmynion cychwyn a wneir o dan adran 79(2) yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd. Dywedodd y Gweinidog:

> "Nodaf safbwyntiau'r Pwyllgor ar y mater hwn. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw Orchymyn cychwyn a wneir o dan y Bil hwn yn cynnwys polisi newydd. Unig fwriad y gorchymyn yw rhoi darpariaethau'r Bil ar waith – darpariaethau a fyddai wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd ar y pwynt hwnnw."[107]

## Ein barn ni

**183.** Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 70 o'r Bil. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddiwygio'r Bil fel y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 70 i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**184.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y pŵer yn adran 79 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n darparu ar gyfer cychwyn rhai darpariaethau yn y Bil. Nodwn na fydd gorchmynion cychwyn o'r fath a wneir o

[106] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Hydref 2020, Cofnod y Trafodion [86]

[107] Llythyr gan y Gweinidog, 18 Medi 2020

dan adran 79(2) o'r Bil yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau craffu'r Senedd.